# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau

Dyddiad: Dydd Gwener, 20 Mehefin 2014

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 26 MEHEFIN 2014** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG A'R CYHOEDD FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 15 Mai 2014 (copi wedi'i amgáu).

**5 RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNIGION I'R DYFODOL** (Tudalennau 13 – 15)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (copi wedi'i amgáu) a oedd yn adolygu cynnydd gyda gweithredu'r Rhaglen.

**9.30 a.m. – 10.05 a.m.**

**6 DARPARIAETH GWASANAETHAU DYDD YNG NGOGLEDD SIR DDINBYCH** (Tudalennau 17 - 26)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes (copi wedi'i amgáu) ar gynigion i ailfodelu gofal dydd i bobl hŷn yng Ngogledd Sir Ddinbych.

**10.10 a.m. – 10.45 a.m.**

**Egwyl**

**7 GRŴP TASG A GORFFEN YR ADOLYGIAD BWYD** (Tudalennau 27 - 38)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) ar yr ymchwiliad i gaffael bwyd ac arferion rheoleiddio cyfredol.

**10.55 a.m. – 11.30 a.m.**

**8 STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD** (Tudalennau 39 - 48)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (copi wedi'i amgáu) ar gasgliadau'r Gweithgor Strategaeth Priffyrdd a Strategaeth Rheoli Asedau Priffyrdd drafft.

**11.30 a.m. – 12.05 p.m.**

**9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 49 - 63)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (copi wedi'i amgáu) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**12.05 p.m. – 12.15 p.m.**

**10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau Cyngor

**12.15 p.m. – 12.25 p.m.**

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd) | Win Mullen-James (Is-Gadeirydd) |
| James Davies | Joe Welch |
| Peter Arnold Evans | Cefyn Williams |
| Carys Guy | Cheryl Williams |
| Rhys Hughes | Huw Williams |
| Bob Murray | |

**Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5 yn unig)**

| | |
|---|---|
| Gill Greenland | Dr. D. Marjoram |
| Debra Houghton | Gareth Williams |
| Nicola Lewis | |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Ffordd Churton, Rhyl, Dydd Iau, 15 Mai 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr James Davies, Peter Evans, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Rhys Hughes, Win Mullen-James, Bob Murray, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams a Huw Williams

Aelodau'r Cabinet - roedd y Cynghorwyr Hugh Evans, Bobby Feeley a Hugh Irving yn bresennol ar gyfer eitemau penodol ar y rhaglen yn ymwneud â'u portffolios unigol

Arsylwyr - Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Stuart Davies a Meirick Davies

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol (PMC), Rheolwr Gofal a Chymorth Tai (JS), Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl (KN), Rheolwr Tîm Dylunio ac Adeiladu (SE), Prif Reolwr Datblygu (GF), Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu Corfforaethol (GW), Rheolwr Rheoli Datblygu (PM), Arweinydd y Tîm Arfordirol (MD), Cydlynydd Craffu (RE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## HYSBYSIAD

Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio y darpariaethau a oedd wedi'u cynnwys ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ar gyfer penodi cadeiryddion trosolwg ac archwilio. Byddai'r Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yn parhau yn ei swydd fel Cadeirydd, oni fyddai'r grwpiau gwleidyddol perthnasol yn dod i gytundeb ynghylch penodi rhywun gwahanol. Talodd y Cynghorydd Huw Williams deyrnged i sgiliau cadeirio'r Cynghorydd Hilditch-Roberts, ond mynegodd siom nad oedd y grwpiau dan sylw wedi dod i gytundeb.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd David Smith (Aelod Arweiniol Tir y Cyhoedd) a'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

## 2 PENODI IS-GADEIRYDD

Nid oedd unrhyw CVs/datganiadau wedi dod i law cyn y cyfarfod ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd. Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau gan y rhai a oedd yn bresennol, a chynigiodd y Cynghorydd Bob Murray y dylid penodi'r Cynghorydd Win Mullen-James yn Is-gadeirydd. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Huw Williams. Gan na chafwyd unrhyw enwebiadau eraill -

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Win Mullen-James yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar gyfer blwyddyn gyngor 2014/15.*

3 **DATGAN CYSYLLTIAD**

Gan ei bod yn denant Cyngor, datganodd y Cynghorydd Cheryl Williams gysylltiad personol ag eitem 7 ar y Rhaglen - Rhaglen Ailwampio Stoc Tai'r Cyngor.

4 **MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Nid oedd unrhyw faterion brys wedi'u codi.

5 **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2014.

Tud. rhif 9 - Eitem 9 Polisi a Rhaglen Torri Lleiniau Glas ar Briffyrdd 2014/15 - Cafwyd nifer o sylwadau gan yr aelodau ynghylch lleiniau glas mewn ardaloedd penodol, a gofynnodd y Cadeirydd iddynt anfon eu sylwadau'n uniongyrchol at y Rheolwr Adain: Rheoli Rhwydwaith, neu godi'r materion yn y grŵp perthnasol o blith Grwpiau Ardal yr Aelodau, fel bo'n briodol. Er iddi wneud cais, nid oedd y Cynghorydd Win Mullen-James wedi cael copi o'r amserlen cynnal a chadw ar gyfer y Rhyl, felly cytunodd y Cydlynydd Archwilio ymchwilio i'r mater.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2014 fel cofnod cywir.*

6 **CEFNOGAETH GYSYLLTIEDIG Â THAI AR GYFER POBL HŶN YN SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) a amlinellai'r newidiadau i Wasanaeth Wardeiniaid Tai Gwarchod y Cyngor, yn dilyn Adolygiad Aylward yn 2010, a fersiwn ddiwygiedig o'r Canllawiau Grant Cefnogi Pobl a gyflwynwyd yn 2012.

Dywedwyd wrth yr aelodau mai mentrau Llywodraeth Cymru oedd yn ysgogi'r newidiadau, yn enwedig newidiadau i'r Grant Cefnogi Pobl. Byddai hyn yn creu gwasanaeth tecach i'r holl breswylwyr ac arnynt angen gwasanaethau Cefnogaeth i Fyw'n Annibynnol, yn hytrach na bod y gwasanaethau hynny ond yn hygyrch i rai a oedd yn byw mewn llety gwarchod. Rhoddwyd sicrwydd na fyddai'r gefnogaeth yn cael ei thynnu'n ôl oddi wrth y defnyddwyr gwasanaeth presennol ac arnynt angen y ddarpariaeth dan sylw. Eglurodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr achos dros newid ac adroddodd am y gwasanaeth newydd a oedd yn cael ei roi ar waith fesul cam yn rhai o gynlluniau llety gwarchod y Cyngor.

Roedd aelodau'r pwyllgor yn croesawu'r gwasanaeth newydd fel dull o sicrhau darpariaeth ehangach o fewn yr adnoddau presennol, gyda mwy o bwyslais a ffocws ar ddarparu gwasanaethau sy'n grymuso yn hytrach na rhai sy'n annog dibyniaeth. Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r trefniadau newydd a lefel y gefnogaeth fyddai'n cael ei darparu, yn enwedig ar gyfer preswylwyr mewn llety gwarchod, er mwyn sicrhau na fyddai hyn yn eu rhoi dan anfantais, ac na fyddai defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo wedi'u hynysu yn eu cartrefi eu hunain. Tynnwyd sylw at y pwysigrwydd o fonitro'r gwasanaeth newydd ac o fesur canlyniadau, ynghyd â

sicrhau cysylltiadau effeithiol â gwasanaethau eraill sy'n darparu gofal a chymorth, a gofynnwyd am sicrwydd ynghylch hynny.  Dyma oedd ymateb y swyddogion -

- Manylwyd ar natur y gefnogaeth fyddai'n cael ei darparu i sicrhau bod unigolion yn parhau i fod yn annibynnol ac yn gallu cael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth eraill fel bo'n briodol.
- Eglurwyd y byddai pwll o Swyddogion Cefnogaeth i Fyw’n Annibynnol wedi’u hyfforddi’n arbennig yn cael ei ddefnyddio i ddarparu’r gwasanaeth. Fel hyn gellid trefnu bod staff ar gael yn ystod absenoldeb salwch neu wyliau, ac y byddai'r ddarpariaeth y tu allan i oriau'n parhau.
- Cafwyd cydnabyddiaeth o bwysigrwydd rhyngweithio cymdeithasol er lles cyffredinol drwy greu pedair swydd newydd i sicrhau cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol.
- Cadarnhawyd y byddai'r gwasanaeth ar gael i breswylwyr lleol fel bo'r angen, ac y gellid cael mynediad i'r gwasanaeth droeon pe bai hynny'n briodol, a hynny ar y cyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol neu iechyd.
- Byddai polisi tecach yn cael ei weithredu ar gyfer taliadau, gyda rhai categorïau wedi'u heithrio rhag gorfod talu, ac roedd hi'n annhebygol iawn y byddai unrhyw gategori o dan anfantais ariannol o ganlyniad i'r newidiadau.
- Byddai defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan yn llawn yn y gwaith o ddatblygu eu Cynllun Cymorth, y gallent ei ddefnyddio i ddwyn y gwasanaeth i gyfrif.
- Eglurwyd y gwahaniaeth rhwng y cynlluniau cymorth a'r pecynnau gofal a oedd yn ddwy swyddogaeth ar wahân, a'r rhyngweithio rhwng y naill a'r llall.
- Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r gwasanaeth newydd yn cael ei werthuso a'i fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn darparu'r cymorth yr oedd ar y preswylwyr ei angen.

***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar y sylwadau uchod, y dylid cefnogi'r ymagwedd sy'n cael ei mabwysiadu er mwyn darparu cefnogaeth gysylltiedig â thai i bobl hŷn yn y sir.*

**7 RHAGLEN AILWAMPIO STOC TAI'R CYNGOR**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau, yr adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) a fanylai ar yr hyn a wnaed er mwyn gwella'r Stoc Tai hyd at Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), ac amlinellodd y problemau a gafwyd a'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y profiad hwnnw.

Eglurodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol (PTDC) fod y mwyafrif o stoc tai'r Cyngor bellach wedi'i adnewyddu er mwyn cyrraedd SATC.  Dechreuwyd y rhaglen ailwampio tai yn 2005 a rhoddwyd wyth o gontractau tai ar dendr.  Roedd contractau 1-7 wedi'u cwblhau'n llwyddiannus, ond roedd problemau sylweddol wedi codi gyda Chontract 8, ac roedd y rhain wedi'u nodi yn yr adroddiad ynghyd â'r gwersi a ddysgwyd wrth sefydlu contractau cyfalaf tai yn y dyfodol.

Adroddodd y Cynghorwyr Cefyn Williams, Rhys Hughes, Hugh Evans a Stuart Davies yr amrywiaeth o broblemau a gafwyd gan denantiaid yn eu hardaloedd yn ystod y rhaglen ailwampio. Soniodd y Cynghorydd Cheryl Williams am ei phrofiad hi ei hun fel tenant Cyngor, a phrofiadau aelodau ei ward yn 2010, yn enwedig y diffyg

parch tuag at denantiaid a'u heiddo. Cynigiodd sawl awgrym er mwyn gwella arferion, gan gynnwys dwyn contractwyr i gyfrif pan fyddai eiddo personol yn cael ei ddifrodi, hap-wiriadau ar ansawdd y gwaith, atgyweirio gwaith diffygiol yn gyflym, a threfniadau gwell ar gyfer fetio darpar gontractwyr.

Holwyd y swyddogion gan yr aelodau ynglŷn â'r problemau a gafwyd er mwyn iddynt fod yn fodlon bod mesurau digonol yn cael eu cyflwyno i sicrhau na fyddai yr un problemau'n codi eto yn y dyfodol. Roedd y pwyllgor o'r farn y dylid dilyn proses gaffael gref a chlir yn y dyfodol ar gyfer prosiectau mawr tebyg i'r prosiect hwn, a oedd yn cynnwys nifer o wasanaethau, ac i gefnogi hynny y dylid sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer monitro a rheoli contractau. Cyfeiriwyd yn arbennig at rôl bwysig Clerc Gwaith a chanddo ddigon o awdurdod i weithredu a digon o gefnogaeth. Yn ogystal â hyn, dylid cyfarwyddo contractwyr i barchu urddas tenantiaid a'u hawl i breifatrwydd yn eu cartrefi eu hunain, ac i ymddwyn mewn modd cwrtais, parchus ac urddasol yn eu gŵydd.

Derbyniodd y PTDC y materion a godwyd ac ymddiheurodd am y problemau a gafwyd. Aeth y swyddogion ati i ymhelaethu ar yr arferion a'r trefnau a fabwysiadwyd yn ystod y rhaglen, ynghyd â ffactorau a gyfrannodd at y perfformiad gwael, gan gynnwys ansawdd isgontractwyr a gyflogwyd o du hwnt i ffiniau'r ardal. Manylwyd ar y mesurau fyddai'n cael eu cyflwyno i liniaru pryderon yr aelodau ac i sicrhau na fyddai'r problemau a gafwyd yn codi eto, yn enwedig -

- cymalau mewn contractau'n gysylltiedig â defnyddio cadwynau cyflenwi a gweithwyr lleol
- rhoi mwy o bwys ar ansawdd yn hytrach na chost wrth sgorio ceisiadau yn y dyfodol
- defnyddio cymalau cwblhau adrannol mewn contractau yn y dyfodol er mwyn rhoi mwy o reolaeth i'r cleient dros y rhaglen (bydd hyn o gymorth er mwyn tarfu cyn lleied â phosib ar denantiaid)
- cadarnhau rolau a chyfrifoldebau a gwerthuso a monitro'r gwaith wrth iddo fynd rhagddo
- sicrhau bod gwaith diffygiol yn cael ei unioni o fewn cyfnod rhesymol o amser.

***PENDERFYNWYD*** *yn achos pob contract ailwampio tai yn y dyfodol -*

(a) *yn amodol ar y sylwadau uchod, y dylid nodi'r gwersi a ddysgwyd yn sgil Rhaglen Safonau Ansawdd Tai Cymru;*

(b) *y dylid gwneud gwaith i gryfhau trefnau caffael mewn perthynas â rhaglenni buddsoddi cyfalaf mawr, ac y dylai'r gwaith hwnnw gynnwys cryfhau'r rheolaeth ar gontractau, ansawdd contractau a threfnau monitro contractau;*

(c) *y dylid cynnwys gofyniad mewn contractau yn y dyfodol i gontractwyr barchu eiddo a phreifatrwydd tenantiaid;*

(d) *y dylai'r drefn ddiwygiedig ddiffinio'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau'r partïon;*

(e) *y dylai pob gwahoddiad yn y dyfodol i dendro am gontractau gynnwys, lle bo modd, gofyniad i gyflogi contractwyr neu isgontractwyr lleol gyda golwg ar ddatblygu'r economi leol;*

(f) *y dylid paratoi nodyn briffio i'r aelodau sy'n amlinellu'r broses gaffael bresennol, ac sy'n hysbysu sut y bydd y broses honno'n cael ei chryfhau yn y dyfodol, a*

(g) *y dylid cyflwyno'r drefn ddiwygiedig a gynigir ar gyfer monitro a rheoli contractau gerbron y Pwyllgor er mwyn cael arsylwadau maes o law.*

Yn y fan hon (11:20am) cafwyd egwyl am luniaeth.

**8 STRATEGAETH CYFATHREBU CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata Corfforaethol (RhCMC) yr adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) gan roi’r newyddion diweddaraf am y cynnydd a gafwyd gyda Chynllun Gweithredu'r Strategaeth Gyfathrebu a'r amcanion ar gyfer y deuddeg mis nesaf. Hefyd, cyflwynodd ddrafft o'r protocol ar gyfer cyfathrebu â'r aelodau.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- yr angen i'r ddolen 'Cysylltu â ni' fod yn fwy amlwg ar wefan y Cyngor
- yr angen i'r calendr digwyddiadau newydd 'EMMA' fod yn fwy hygyrch i'r aelodau ac wedi'i gyfeirio'n briodol.
- yr angen i hysbysu'r aelodau am ddigwyddiadau - digwyddiadau'r Cyngor, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU neu ddigwyddiadau eraill sy'n cael eu cynnal yn eu his-adran etholiadol (ddim i gael gwahoddiad i'r digwyddiad o reidrwydd, ond i fod yn ymwybodol ohono). Yn ogystal â hyn, dylid ymgysylltu'n well â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned mewn perthynas â digwyddiadau ardal leol.
- mynegwyd pryderon gan rai aelodau ynghylch ansawdd cyfieithu adroddiadau pwyllgor ayyb, ers i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddarparu'r gwaith.
- roedd rhai'n teimlo bod y Cyngor yn colli cyfle wrth ymdrin â'r cyfryngau, a bod angen mabwysiadu dull llawer mwy rhagweithiol
- yr angen i farchnata'r Cyngor yn y dull cywir ac i uniaethu'n well â phreswylwyr lleol wrth lunio datganiadau i'r wasg
- cadarnhawyd y byddai sesiynau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i'r aelodau yn cael eu cynnwys yn rhan o gynllun gweithredu Blwyddyn 2 ar gyfer y Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol
- yr angen i asesu'r adegau pan na fyddai'n briodol ymuno â dadl gyhoeddus ar faterion
- asesu manteision cyhoeddi 'safbwynt neu farn Sir Ddinbych' ar faterion neu gynigion cenedlaethol penodol.

Adroddodd y RhCMC ar y Broses Rheoli Cyfrifon er mwyn cyfathrebu'n well ag adrannau a sicrhau bod materion posib yn gysylltiedig â'r cyfryngau'n cael eu nodi'n fuan a strategaeth yn cael ei chynllunio i'w datrys. Ymhelaethodd hefyd ar strategaethau i godi proffil yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr ar raddfa genedlaethol.

O ran teilwra datganiadau i'r wasg, nododd yr aelodau fod deddfwriaeth yn atal y Cyngor rhag dyfynnu ar ran aelodau unigol ar wahân i aelodau Cabinet, a hynny oherwydd cyfyngiadau gwleidyddol.

***PENDERFYNWYD*** -

(a) *yn amodol ar ddatrys y materion uchod, y dylid nodi'r cynnydd a wnaed o ran Cynllun Gweithredu Blwyddyn 1;*

(b) *y dylid cynnwys y materion a nodwyd uchod yng Nghynllun Gweithredu Blwyddyn 2, ac*

(c) *y dylid cefnogi'r protocol drafft ar gyfathrebu â'r aelodau tra'n aros iddo gael ei gymeradwyo gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, ac y dylid tynnu sylw'r staff at y protocol wedi iddo gael ei gymeradwyo.*

**9 GWELL RHEOLEIDDIO SAFLEOEDD CARAFANNAU**

Cyflwynodd y Rheolwr Rheoli Datblygu (RhRhD) adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) a roddai'r newyddion diweddaraf am ddeddfwriaeth berthnasol sydd ar ddod yn Llywodraeth Cymru ynghylch rheoleiddio safleoedd carafanau, a goblygiadau hynny i'r Cyngor.

Dywedwyd wrth yr aelodau na chafwyd y cynnydd a ragwelwyd yn wreiddiol gyda drafft y Strategaeth Carafanau, a hynny oherwydd ymarfer ad-drefnu staff o fwn y gwasanaeth a'r ddeddfwriaeth oedd ar ddod gan Lywodraeth Cymru. Roedd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar y Bil Safleoedd Carafanau Gwyliau (Cymru) ac roedd y Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 wedi dod i rym ar 1 Hydref 2014. Mae'r canfyddiad bod pobl yn preswylio mewn carafanau yn y sir drwy'r flwyddyn gron wedi bod yn bryder i aelodau a swyddogion fel ei gilydd ers tro. Byddai Swyddogion Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a Thrwyddedu yn cyfarfod yn rheolaidd i archwilio materion a oedd yn destun pryder, ac roedd dau erlyniad ar ddod am dorri amodau trwydded. Nodwyd rheoleiddio safleoedd carafanau yn well fel un o'r blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth ar ôl ei ad-drefnu.

Cyfeiriodd yr aelodau at nifer o achosion lle cafwyd amheuon bod carafanau'n cael eu defnyddio i ddibenion preswyl parhaol o fewn y sir. Mynegwyd amheuon ynghylch gallu'r Gwasanaeth i orfodi unrhyw ddeddfwriaeth newydd neu gymryd camau gorfodi yn erbyn achosion o dorri amodau cynllunio/trwyddedu oherwydd prinder adnoddau. Nodwyd y gellid ystyried hunanwerthusiadau o safleoedd carafanau gan berchnogion a'r posibilrwydd o sefydlu trefn i godi tâl am arolygu safleoedd fel ffordd o gynhyrchu incwm i ariannu camau gorfodi. Holodd yr aelodau a ellid defnyddio cofrestrau etholiadol, cofnodion ysgolion neu gofnodion treth y cyngor/budd-dal tai er mwyn dilysu preswyliaeth. Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r effaith bosibl ar Wasanaethau Tai'r Cyngor pe bai camau gorfodi'n cael eu cymryd yn erbyn pobl a oedd yn byw ar safleoedd carafanau drwy'r flwyddyn, a'r safleoedd hynny heb drwydded ar gyfer preswylio dros 365 o ddiwrnodiau. Adroddodd y RhRhD ar waith i lunio drafft o Fframwaith Strategaeth Safleoedd Carafanau yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth a oedd ar ddod, a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion a

godwyd. Ymatebodd hefyd i gwestiynau'r aelodau ynglŷn â'r agweddau cyfreithiol oedd yn rheoli cartrefi mewn parciau, lleoli carafanau a materion cynllunio.

Ar ôl cynnal trafodaeth fanwl ymhlith yr aelodau -

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, y dylid nodi cyfeiriad y prosiect ac y dylid cyflwyno'r drafft o Fframwaith Strategaeth Safleoedd Carafanau gerbron y Pwyllgor i'w archwilio maes o law.*

**10 RHAGLEN Y RHYL YN SYMUD YMLAEN – ADRODDIAD CHWARTEROL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans, yr Arweinydd a'r Aelod Arweiniol Datblygu Economaidd yr adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) oedd yn rhoi'r newyddion diweddaraf am Raglen y Rhyl yn Symud Ymlaen.

Hysbyswyd aelodau'r pwyllgor fod Bwrdd y Rhaglen wedi cytuno i adolygu'r rhaglen er mwyn sicrhau bod y prosiectau'n gyfredol ac yn addas i'r diben. Yn y dyfodol, byddai gwybodaeth o Fynegai Amddifadedd Lluosog y Wardiau yn cael ei chynnwys gyda'r nod yn y pen draw o sicrhau na fyddai unrhyw ward yn y Rhyl yn disgyn i'r categori hwn ar ôl cyflawni'r rhaglen. Er bod nifer o'r prosiectau wedi'u cwblhau'n llwyddiannus, roedd pryderon ynghylch nifer y cyfleoedd am swyddi a grëwyd, a byddai angen i hyn fod yn nodwedd gref ym mhrosiectau'r dyfodol. Hefyd, roedd angen bod yn fwy strategol wrth fuddsoddi, a byddai'r Cyngor yn gofyn am gyfraniad gan Lywodraeth Cymru er mwyn ariannu mentrau yn y dyfodol.

Dyma'r datblygiadau a gafwyd ers llunio'r adroddiad-

- ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad yn gysylltiedig â'r cais cynllunio i ddarparu Man Gwyrdd yng Ngorllewin y Rhyl.
- roedd y safle datblygu ar John Street/Rhodfa’r Gorllewin bellach ar y farchnad
- roedd trafodaethau ar y gweill ar y ffordd orau o ddefnyddio'r £1m a neilltuwyd drwy'r cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid
- roedd y Bwrdd Iechyd wedi dechrau ymgysylltu â swyddogion ynglŷn â'r ysbyty cymunedol

Cyfeiriwyd at drefniadau llywodraethu'r Rhaglen, a rhoddwyd sicrwydd bod i'r Rhaglen drefniadau llywodraethu cadarn a bod disgwyl i aelodau'r Bwrdd adrodd yn ôl wrth randdeiliaid ar gynnydd y Rhaglen. Trafododd yr Aelodau ddatblygiad safle Ocean Plaza, gan godi pryderon ynglŷn â'i ymddangosiad blêr a'r diffyg cynnydd a welwyd o ran cymryd camau gorfodi. Rhoddwyd sicrwydd bod ymdrechion ar waith i fynd i'r afael ag ymddangosiad y safle.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, y dylid nodi'r cynnydd a wnaed a gofyn am gael cyflwyno adroddiadau pellach ar Raglen y Rhyl yn Symud Ymlaen gerbron y Pwyllgor bob chwarter, ar ffurf adroddiad gwybodaeth gyda darpariaeth i'r Pwyllgor alw'r Rhaglen i mewn i gael ei harchwilio os daw agweddau sy'n peri pryder i'r amlwg.*

**11 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (a gylchredwyd yn flaenorol) a oedd yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y pwyllgor i'r dyfodol, ac yn rhoi'r newyddion diweddaraf am faterion perthnasol.

Cytunodd yr aelodau ar y diwygiadau canlynol i'r rhaglen waith -

- Adolygiad Cynlluniau Tref ac Ardal - gohirio hyd fis Medi
- Moderneiddio Addysg - Mehefin
- Strydwedd (adroddiad cynnydd) - Medi

Awgrymwyd y gallai'r aelodau nodi meysydd i'w harchwilio o fewn y Cynllun Corfforaethol ac adrodd yn ôl wrth Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion.

***PENDERFYNWYD*** -

*(a) yn amodol ar yr uchod, ac ar unrhyw newidiadau eraill y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod, y dylid cymeradwyo'r rhaglen waith i'r dyfodol, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a*

*(b) y dylid ailbenodi Cynrychiolwyr Archwilio'r Pwyllgor ar y Grwpiau Herio Gwasanaethau a'r Grŵp Monitro Safonau Ysgolion.*

**12 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Dywedodd yr Aelodau eu bod wedi bod i'r cyfarfodydd canlynol -

Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts - Bwrdd Uchelgais Economaidd
Y Cynghorydd Cefyn Williams - Rhianta Corfforaethol
Y Cynghorydd Win Mullen-James – Grŵp Herio'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd

Daeth y cyfarfod i ben am 1.20pm

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Mehefin 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Addysg /<br>Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Rhaglen Moderneiddio Addysg** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Bydd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg yn darparu diweddariad ar lafar i'r cyfarfod ar gynnydd y Rhaglen Moderneiddio Addysg. Ynghlwm fel atodiad mae'r rhaglen ariannol drafft ar gyfer Moderneiddio Addysg ehangach. Mae hyn yn dangos Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor ynghyd ag opsiynau ar gyfer buddsoddi ehangach.

**2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

Mae'r Cyngor yn symud ymlaen â rhaglen uchelgeisiol ar gyfer buddsoddi yn yr ystâd ysgolion. Bydd y diweddariad llafar yn caniatáu i Aelodau adolygu'r cynnydd presennol cyn i'r cam nesaf o waith ar gyfer y rhaglen gael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 29 Gorffennaf.

**3. Beth yw'r argymhellion?**

Gofynnir i Aelodau i roi sylwadau ar y sefyllfa bresennol a lle bo'n briodol i wneud argymhellion i'r Cabinet.

**4. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd y cynnig yn cefnogi'r flaenoriaeth gorfforaethol o "wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion".

**5. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae cost gyffredinol Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn £73.4m ac mae dyraniadau dros dro wedi cael eu gwneud gan Sir Ddinbych ar gyfer ei gyfraniad cyffredinol o 50%. Bydd y 50% sy'n weddill yn dod trwy Lywodraeth Cymru a chafwyd cymeradwyaeth ar gyfer 3 o'r 5 prosiect hyd yma. Roedd y Cynllun Corfforaethol hefyd yn cynnwys nod i fuddsoddi £23m pellach ar weithredu ein hadolygiadau ardal, gwaith adnewyddu a gwelliannau eraill i ysgolion.

**6. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed EqIA wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth ar hyn o bryd ac felly nid oes AEC wedi'i wneud.

**7. Pa ymgynghori a wnaed gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae’r opsiynau ar gyfer buddsoddi ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi cael ei gymeradwyo yn flaenorol gan y Cabinet a'i drafod gyda'r Pwyllgor Archwilio. Yr adroddiad hwn yw'r cam cyntaf o flaenoriaethu gwariant cyfalaf ychwanegol.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae’r adroddiad yn ategu’r dyhead i fuddosddi yn sylweddol yn y rhaglen gwella ysgolion. Bydd angen adolygu’r ffigyrau a ddyfynwyd gan roi ystyriaeth i’r tybiaethau diweddaraf o ran cyllido mewnol ac allanol, costau a llif ariannol. Yn y dyfodol fe fydd rhaid asesu cyfraniadau mewnol fel rhan o’r broses gyllideb flynyddol.

**9. Pa risgiau sydd, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae nifer o risgiau yn cael eu rheoli ar hyn o bryd ar lefel rhaglen gan y Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg. Bydd pob prosiect unigol yn cynnwys gweithdrefnau rheoli risg.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r cynigion yn cyd-fynd â'r Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg.

Mae erthyglau 6.3.2(b) a 6.3.4(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau’r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr y Rhaglen - Moderneiddio Addysg
Ffôn: 01824 706254

| | | | | Cyfnod Ysgolion yr 21ain Ganrif 2014/2019 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/2021 | Cyfanswm |
| **Prosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif Band A**<br>**Y sefyllfa ym mis Mai 2014** | | | | | | | | | | | |
| Rhaniad 50/50 Ysgolion Cymunedol<br>CSDd | | | | | | | | | | | |
| Ysgol Uwchradd y Rhyl / Ysgol Tir Morfa | | £24,945 | £1,053,080 | £2,713,282 | £8,272,073 | £229,670 | | | | | £12,293,050 |
| Ysgol Glan Clwyd | | £4,579 | £5,056 | £20,365 | £3,486,750 | £4,513,221 | £408,062 | | | | £8,438,033 |
| Ysgol Gymunedol Bodnant | | | £69,310 | £154,695 | £863,877 | £562,193 | £60,973 | | | | £1,711,048 |
| Ysgol Bro Dyfrdwy | £4,770 | £81,022 | £38,697 | £88,397 | | | | | | | £212,886 |
| Cyfanswm | £4,770 | £110,546 | £1,166,143 | £2,976,739 | £12,622,700 | £5,305,084 | £469,035 | £0 | £0 | £0 | £22,655,017 |
| LlC | | | | | | | | | | | |
| Ysgol Uwchradd y Rhyl / Ysgol Tir Morfa | | | | £4,232,326 | £7,758,397 | £302,327 | | | | | £12,293,050 |
| Ysgol Glan Clwyd | | | | £1,306,187 | £3,486,750 | £2,669,030 | | | | | £7,461,967 |
| Ysgol Gymunedol Bodnant | | | | £464,880 | £1,235,120 | | | | | | £1,700,000 |
| Ysgol Bro Dyfrdwy | | | £1,170,000 | £30,000 | | | | | | | £1,200,000 |
| Cyfanswm | | £0 | £1,170,000 | £6,033,393 | £12,480,267 | £2,971,357 | £0 | £0 | £0 | £0 | £22,655,017 |
| Ysgolion Ffydd 85/15 - £ 28m | | | | | | | | | | | |
| CSDd | | | £12,624 | £97,376 | £3,758,503 | £344,992 | | | | | £4,213,495 |
| LlC | | | | | | £7,473,822 | £15,202,529 | £841,338 | £358,782 | | £23,876,471 |
| Cyfanswm | | £0 | £12,624 | £97,376 | £3,758,503 | £7,818,814 | £15,202,529 | £841,338 | £358,782 | £0 | £28,089,966 |
| Gofynion Cyffredinol | | | | | | | | | | | |
| Ysgol Uwchradd y Rhyl / Ysgol Tir Morfa | | £24,945 | £1,053,080 | £6,945,608 | £16,030,470 | £531,997 | £0 | £0 | £0 | | £24,586,100 |
| Ysgol Glan Clwyd | | £4,579 | £5,056 | £1,326,552 | £6,973,500 | £7,182,251 | £408,062 | £0 | £0 | | £15,900,000 |
| Ysgol Gymunedol Bodnant | | £0 | £69,310 | £619,575 | £2,098,997 | £562,193 | £60,973 | £0 | £0 | | £3,411,048 |
| Ysgol Bro Dyfrdwy | £4,770 | £81,022 | £1,208,697 | £118,397 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | | £1,412,886 |
| Ysgol Ffydd | | | £12,624 | £97,376 | £3,758,503 | £7,818,814 | £15,202,529 | £841,338 | £358,782 | | £28,089,966 |
| Cyfanswm | £4,770 | £110,546 | £2,348,767 | £9,107,508 | £28,861,470 | £16,095,255 | £15,671,564 | £841,338 | £358,782 | | £73,400,000 |
| **Prosiectau Posibl y Cynllun Corfforaethol - Costau Dangosol** | | | | Bl. 1 | Bl. 2 | Bl. 3 | Bl. 4 | Bl. 5 | Bl. 6 | Bl. 7 | Cyfanswm |
| Cludiant Gweithle | | | | £250,000 | £250,000 | £250,000 | £250,000 | | | | £1,000,000 |
| Ysgol Tref Rhuthun | | | | £141,601 | £529,203 | £3,752,689 | £4,427,892 | | | | £8,851,385 |
| Ysgol Ardal Clocaenog / Cyffylliog | | | | £49,647 | £151,905 | £1,484,268 | £580,157 | | | | £2,265,977 |
| Ysgol Ardal Llanfair / Pentrecelyn | | | | £60,998 | £201,433 | £2,053,778 | £804,843 | | | | £3,121,052 |
| Ysgol Pendref | | | | £155,554 | £1,167,460 | £435,454 | | | | | £1,758,468 |
| Ysgol Gynradd Y Rhyl - Darpariaeth Ychwanegol | | | | £106,400 | £1,391,519 | £3,384,333 | £2,535,550 | | | | £7,417,802 |
| Cyfanswm | | | | £764,200 | £3,691,520 | £11,360,522 | £8,598,442 | £0 | £0 | £0 | £24,414,684 |
| **Cyfanswm Gwariant Sir Ddinbych** | | | | | | | | | | | |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | £4,770 | £110,546 | £1,178,767 | £3,074,115 | £16,381,203 | £5,650,076 | £469,035 | £0 | £0 | £0 | £26,868,512 |
| Prosiectau'r Cynllun Corfforaethol | £0 | £0 | £0 | £764,200 | £3,691,520 | £11,360,522 | £8,598,442 | | | | £24,414,684 |
| **Cyfanswm** | £4,770 | £110,546 | £1,178,767 | £3,838,315 | £20,072,723 | £17,010,598 | £9,067,477 | £0 | £0 | £0 | £51,283,196 |
| **Prosiectau Posibl Bodelwyddan** | | | | | | | | | | | |
| Bodelwyddan - Estyniad i Ysgol y Faenol | | | | £500,000 | £1,200,000 | | | | | | £1,700,000 |
| Bodelwyddan - Ysgol Newydd | | | | £106,400 | £391,519 | £3,384,333 | £2,535,550 | | | | £6,417,802 |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Mehefin 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Busnes)/Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Prosiect (Tai Gofal Ychwanegol)/ Rheolwr Gwasanaeth (Busnes a Gofalwyr)** |
| **Teitl:** | **Darparu Gwasanaethau Dydd yng Ngogledd Sir Ddinbych** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ynglŷn ag adroddiad a ddaeth ger bron y Cabinet ym mis Mawrth 2013 yn manylu ar gynigion i ailfodelu gofal dydd i bobl hŷn yng Ngogledd Sir Ddinbych. Cytunodd y Cabinet i ddull gweithredu wedi ei ailfodelu o ran gofal dydd ac i ddatblygu cynllun prosiect ar gyfer cyflwyno hynny.

1.2 Mae'r cynigion yn ymwneud yn bennaf â newidiadau yng Ngogledd Sir Ddinbych. Fodd bynnag nodwyd hefyd y bwriad o gyflwyno egwyddorion strategol sy'n sylfaenol i hyrwyddo annibyniaeth pobl trwy ailalluogi a defnyddio adnoddau cymunedol ledled y sir gyfan.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu i'r Pwyllgor Craffu ddiweddariad ynglŷn â'r newidiadau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i wasanaethau dydd ar gyfer pobl hŷn yng Ngogledd y Sir a sut y bydd y newidiadau hyn yn cael eu dyblygu ledled y sir.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Bod yr Aelodau'n derbyn yr adroddiad ac yn cynnig sylwadau ac yn cefnogi'r camau sy'n cael eu cymryd i symud y gwasanaeth yn ei flaen yn gyson â'r egwyddor o gefnogi dinasyddion Sir Ddinbych i aros mor annibynnol ag y bo modd am gyhyd ag y bo modd.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### 4.1 Cefndir

4.1.1 Roedd yr adroddiad yn 2013 yn nodi'r heriau sy'n wynebu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r angen i ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a ddaeth i rym ar 1 Mai 2014 sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn trawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu, yn bennaf drwy hyrwyddo annibyniaeth pobl a rhoi llais cryfach ac ymreolaeth iddynt.

4.1.2 Adolygwyd y Gwasanaethau Dydd yng Ngogledd Sir Ddinbych gan Gyngor Sir Ddinbych am nifer o resymau:

- Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gyson â'n polisi ail-alluogi (Mae ail-alluogi yn ymwneud â sicrhau bod y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig yn canolbwyntio ar helpu person i aros mor annibynnol â phosibl drwy ddysgu neu ail-ddysgu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i fyw bywyd bob dydd a chanfod yr hyder i fyw gartref.)
- Oherwydd gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau ac yn nifer y bobl sy'n mynychu gwasanaethau dydd
- Yr angen i edrych yn ofalus ar ddarpariaeth y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd gyda'r bwriad o wneud arbedion cyllideb lle bynnag y bo modd yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

4.1.3 Roedd adroddiad 2013 yn cynnig y dylai gofal dydd yn Sir Ddinbych ganolbwyntio ar:

i) bobl sydd mor fusgrell neu ag iechyd meddwl cynddrwg nes na allent ymdopi â gweithgareddau yn y gymuned a bod arnynt angen amgylchedd â mwy o warchodaeth;

ii) pobl y mae eu gofalwyr angen seibiant rheolaidd a dibynadwy er mwyn eu galluogi i barhau i ofalu am y person hŷn a phan na ellir diwallu anghenion y person hŷn hwnnw trwy gyfrwng gweithgareddau yn y gymuned;

iii) pobl sydd wedi dod i ddibynnu cymaint ar y gwasanaethau presennol nes y byddai newid drwy alluogi/ail-alluogi yn afresymol

4.1.4 Mae darparu gofal dydd yn rhan o ddull ehangach sy'n ystyried pwysigrwydd atal, ymyrraeth gynnar ac sy'n cydnabod y bydd gan rai pobl, mewn poblogaeth sy'n heneiddio, anghenion gofal cymhleth, tymor hir sy'n gofyn am ddulliau ymatebol ac sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

4.2 **Beth sydd wedi ei roi ar waith hyd yma**

4.2.1 Wrth i'r adolygiad fynd rhagddo bu symudiad llwyddiannus tuag at fwy o integreiddio rhwng y ddwy ganolfan gofal dydd bresennol gyda'r gwasanaeth yn gweithredu o Hafan Deg dridiau'r wythnos ac o Lys Nant ddeuddydd yr wythnos. Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2013 cafwyd llifogydd yn adeilad Llys Nant yn Ffordd Llys Nant, gan wneud y lle yn annrhigiadwy dros dro, a chan fod paratoadau ar y gweill ar gyfer y Nadolig, penderfynwyd symud i gynnig gwasanaeth 5 niwrnod yn Hafan Deg ac i adolygu'r sefyllfa yn y Flwyddyn Newydd.

4.2.2 Ar ôl ystyried y sefyllfa bresennol yn ofalus penderfynodd Uwch Dîm Arweinyddiaeth Oedolion a Busnes i ganolbwyntio'r gwasanaeth yn barhaol yn Hafan Deg yn y Rhyl mewn adeilad sydd wedi ei adeiladu'n bwrpasol ar gyfer darparu gwasanaethau dydd ac sydd yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r holl fudd-ddeiliaid gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff trwy gydol mis Ionawr 2014

ynglŷn â’r cynnig i drawsnewid y ddarpariaeth i wasanaeth tridiau, h.y. dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener o 1 Ebrill 2014.

4.2.3 Wrth edrych ar anghenion yr unigolion hynny a oedd yn mynychu gwasanaethau dydd yng Ngogledd y sir ar y pryd dim ond 2 oedd yn derbyn gwasanaethau am fwy na 2 ddiwrnod a gwnaed trefniadau i ddiwallu eu hanghenion hwy. Ar gyfer yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth eraill, cynhaliwyd trafodaethau ar sail un-i-un rhwng yr unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr a gyda'u Gweithiwr Cymdeithasol/Gweithiwr Gofal Cymunedol, a gyda'r Tîm Rheoli yn Hafan Deg er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth newydd yn parhau i ddiwallu eu hanghenion. Nid oes unrhyw fwriad i leihau'r gwasanaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth presennol.

4.2.4 Am ddeuddydd bob wythnos, h.y. dydd Mawrth a dydd Iau caiff y ganolfan ei defnyddio fel rhan o'r strategaeth ailalluogi gyffredinol er mwyn i bobl newydd sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaethau dydd gael cyfnod o weithgarwch sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau yn Hafan Deg gyda’r bwriad o gynnal eu hannibyniaeth yn y gymuned.

4.2.5 Ochr yn ochr â'r trefniadau hyn mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu’r cyfleoedd ymhellach i gael gweithgareddau dydd ystyrlon yn y gymuned yng Ngogledd Sir Ddinbych, gan gynnwys:

- Cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau yn Nant y Môr ym Mhrestatyn (mae sawl gweithgaredd cynhwysol wedi cael eu cynnal yn Nant y Môr)
- Cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau yn Gorwel Newydd yn y Rhyl
- Cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau gyda Morrisons yn y Rhyl (mae gweithgareddau rheolaidd wedi bod yn cael eu cynnal yn siop Morrisons yn cynnwys defnyddwyr y ganolfan ddydd a phobl hŷn leol eraill)
- Rhaglen Cymuned sy’n Gyfeillgar i Ddementia ym Maes Emlyn yn y Rhyl,
- Cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau gyda Mudiadau Gwirfoddol ym Mhrestatyn (mae trafodaethau yn mynd rhagddynt)
- Mae hyfforddwyr o glwb pêl-droed y Rhyl yn cynnal sesiynau cadw'n heini yn Hafan Deg sydd yn boblogaidd iawn
- Mae Dementia Cymru yn cynnal digwyddiadau yn Hafan Deg
- Gall defnyddwyr y gwasanaeth hefyd gael cyswllt â sesiynau Celf ar gyfer pobl â dementia yn llyfrgell y Rhyl

4.2.6 Dyma sefyllfa presenoldeb yn Hafan Deg ar hyn o bryd:

| | Nifer sy’n mynychu bob wythnos | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Dydd Llun | Dydd Mercher | Dydd Gwener | Cyfanswm |
| Defnyddwyr Gwasanaeth Blaenorol Hafan Deg | 11 | 6 | 7 | 24 |
| Wedi bod yn mynychu Canolfan Llys Nant yn flaenorol | 8 | 11 | 11 | 30 |
| cyfansymiau | 19 | 17 | 18 | 54 |

Nid oes unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth wedi rhoi'r gorau i fynychu o ganlyniad i'r newidiadau.

4.2.7 Cyflogid 15 o bobl yn y 2 wasanaeth ar wahân ac yn y trefniant newydd mae 12 o swyddi, gyda chymysgedd o staff rhan-amser (3 diwrnod) a staff llawn-amser i adlewyrchu gofynion y gwasanaeth wedi ei ailfodelu.

.

4.2.8 O ran y swyddi hynny nad oes mo'u hangen bellach, mae tri aelod o staff wedi gofyn am ddiswyddiad/ymddeoliad cynnar, mae un yn ystyried adleoli i swydd llawn amser parhaol yn rhywle arall yn y gwasanaeth ac mae un aelod o staff yn cael ei ddiswyddo.

4.2.9 Bu awgrym fod bwriad i gau'r Ystafell Grefftau fel rhan o symud y gwasanaeth yn ei flaen. Nid hynny yw'r bwriad, er y bydd yr ystafell sydd wedi ei dynodi ar hyn o bryd yn ystafell grefft yn cael ei defnyddio yn fwy creadigol fel man lle gellir cefnogi amrywiaeth o weithgareddau a lle caiff rhagor o ddefnyddwyr gwasanaeth eu hannog i ddefnyddio'r gofod. Bydd y gofod hwn ar gael dros y 5 diwrnod. Mae'r ystafell grefft yn ystafell agored braf a llachar, gyda llawr hawdd ei lanhau ac felly mae'n cynnig ei hun i'w defnyddio ar gyfer nifer o weithgareddau. Fel y bydd rhai Aelodau'n ymwybodol, mae lolfa haul ynghlwm wrth ran o'r ystafell. Mae nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi dweud cymaint y maent yn colli cael garddio. Byddai'r ardal hon yn ddelfrydol i dyfu hadau, i ail-botio ac i dyfu planhigion ar eu cyfer eu hunain neu ar gyfer eraill, neu ar gyfer y Ganolfan ei hun. Rydym yn y broses o sefydlu ardal y tu allan i hyrwyddo'r gweithgarwch hwn. Nawr bod goblygiadau staffio'r newidiadau wedi cael eu datrys, bydd y rheolwr yn dechrau ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a staff i edrych ar sut y gellir defnyddio'r gofod yn fwy effeithiol er budd pawb sy'n defnyddio'r ganolfan.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r gwasanaeth sydd wedi ei ailfodelu'n cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaeth y Cyngor bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol ag sy'n bosib.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r gostyngiad yn y gofynion staffio a'r costau adeiladu ar gyfer Prestatyn wedi arwain at arbedion a fydd yn cael eu cynnwys yn y cynigion ar gyfer y gyllideb yn 2015/16.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Dynododd yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (gweler yr Atodiad) bod y gwasanaeth wedi ei ailfodelu yn darparu ystod ehangach o wasanaethau cymorth i bobl hŷn nag oedd ar gael o'r blaen.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae'r cynigion ar gyfer newid wedi cael eu datblygu trwy gyfrwng trafodaethau hir gyda grwpiau o fudd-ddeiliaid gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, staff,

cynghorwyr sir a thref ac mewn digwyddiadau herio gwasanaethau a phwyllgorau craffu.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dim angen.

10.

Ni ddynodwyd unrhyw risgiau fel rhan o'r adroddiad hwn.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amlinellir pwerau’r Pwyllgorau Archwilio mewn perthynas ag archwilio perfformiad gwasanaethau'r Cyngor ym mharagraff 6.3.4(b) y Cyfansoddiad.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Prosiect (Tai Gofal Ychwanegol)/ Ffôn: 01824 706596

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Atodiad**

# Adolygiad o Wasanaethau Dydd ar gyfer Pobl Hŷn yng Ngogledd Sir Ddinbych
# 10 Mehefin 2014

## Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

# Adolygiad o Wasanaethau Dydd i Bobl Hŷn yng Ngogledd Sir Ddinbych

| | |
|---|---|
| **Cyswllt:** | Jacqui Bryan Gwasanaethau Oedolion a Busnes |
| **Diweddarwyd:** | 10 Mehefin 2014 |

## 1. Pa fath o gynnig / penderfyniad sy'n cael ei asesu?

Adolygiad gwasanaeth neu gynnig ad-drefnu

## 2. Beth yw pwrpas y cynnig / penderfyniad hwn, a pha newid (i staff neu'r gymuned) fydd yn digwydd yn sgil ei weithredu?

Mae darpariaeth gwasanaeth dydd yng Ngogledd y Sir wedi cael ei ailfodelu i sicrhau ei bod yn cael ei darparu mewn dull sy'n gyson â'r model ailalluogi a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r gwasanaethau oedolion sy'n sicrhau gwell cynaliadwyedd wrth symud ymlaen, ond sydd eto, ar yr un pryd yn sicrhau y darperir math a lefel briodol o wasanaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol a newydd er mwyn diwallu eu hanghenion sydd wedi eu hasesu.

## 3. A oes angen cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar y cynnig / penderfyniad hwn? Os nac oes, eglurwch pam.

***Dylid nodi:*** *os bydd y cynnig yn cael effaith ar bobl (staff neu'r gymuned) yna bydd* ***rhaid*** *cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb*

| Oes | |
|---|---|

## 4. Rhowch grynodeb o'r camau a gymerwyd, a'r wybodaeth a ddefnyddiwyd, i gynnal yr asesiad hwn, gan gynnwys unrhyw ymgysylltu a wnaed

*(Gweler adran 1 yn y pecyn gwaith am arweiniad)*

Mae defnyddwyr gwasanaeth presennol, eu gofalwyr, staff, aelodau etholedig lleol a budd-ddeiliaid eraill wedi cael eu cynnwys mewn nifer o gyfarfodydd dros gyfnod o fisoedd yn 2013 ac yn nechrau 2014 i adolygu'r ddarpariaeth bresennol ac er mwyn datblygu a rhoi model newydd ar waith.

## 5. A fydd y cynnig / penderfyniad hwn yn cael effaith bositif ar unrhyw un o'r nodweddion a ddiogelwyd (oed; anabledd; ail

**aseinio rhyw; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; a thueddfryd rhywiol)?**
*(Gweler adran 1 yn y pecyn gwaith i weld disgrifiad o'r nodweddion a ddiogelir)*

| |
|---|
| Mae'r ailfodelu wedi creu cynhwysedd i ganiatáu cynnig ystod ehangach o gefnogaeth i bobl hŷn yn yr ardal. |

**6. A fydd y cynnig / penderfyniad hwn yn cael effaith anghymesur ar unrhyw un o'r nodweddion a ddiogelwyd (oed; anabledd; ail aseinio rhyw; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; a thueddfryd rhywiol)?**

| |
|---|
| Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl hŷn a bydd yn parhau i ddiwallu eu hanghenion er bod hyn wedi golygu newid yn lleoliad y gwasanaeth i rai defnyddwyr gwasanaeth a newid yn y diwrnod y maent yn derbyn y gwasanaeth i rai. |

**7. A yw'r cynnig / penderfyniad wedi'i ddiwygio i ddileu neu leihau unrhyw effaith negyddol bosibl? Os nad ydyw, eglurwch pam.**

| | |
|---|---|
| Ydy | Datblygwyd cynlluniau unigol ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth yr oedd y newidiadau yn effeithio arnynt a bydd y rheiny'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Darparwyd cefnogaeth Adnoddau Dynol i bob aelod o staff y tîm yr effeithiwyd arnynt gan yr ailfodelu. |

**8. A ydych wedi nodi unrhyw gamau pellach i fynd i'r afael ag unrhyw effaith negyddol bosibl ac / neu eu monitro?**

| | |
|---|---|
| Do | |

| Cam(au) Gweithredu | Perchennog | Erbyn pryd? |
|---|---|---|
| Gwerthuso effaith rhoi'r ailfodelu ar waith unwaith y bydd y newidiadau wedi gwreiddio i ddynodi unrhyw effaith negyddol bosibl | Anne Hughes-Jones | Mehefin 2015 |
| <Disgrifiwch> | <Enw> | <DD.MM.BB> |
| <Disgrifiwch> | <Enw> | <DD.MM.BB> |
| <Disgrifiwch> | <Enw> | <DD.MM.BB> |
| <Datgyfyngu golygu er mwyn ychwanegu rhesi> | <Enw> | <DD.MM.BB> |

---------------------------------------------------------------------------------------------

**9. Datganiad**

Gwnaed pob ymdrech resymol i ddileu neu leihau unrhyw effaith anghymesur bosibl ar bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir. Caiff union effaith y cynnig / penderfyniad ei adolygu ar yr adeg briodol.

| Dyddiad Adolygu: | Mehefin 2015 |
|---|---|

| Enw Swyddog Arweiniol yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb | Dyddiad |
|---|---|
| Jacqui Bryan | 10.6.2014 |

**Nodwch y bydd angen i chi gyhoeddi canlyniad yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb os byddwch yn canfod effaith sylweddol debygol.**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Mehefin 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol, Parth Cyhoeddus** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd/ Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Teitl:** | **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygu Bwyd – Adroddiad Diweddaru** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Yn dilyn yr adroddiadau cenedlaethol ar DNA cig ceffyl a ddarganfuwyd mewn cynhyrchion cig, cychwynnodd y Cyngor ymchwiliad i gaffael bwyd cyfredol ac arferion rheoleiddio. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn wleidyddol gytbwys, yn cynnwys Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor, i nodi unrhyw risgiau allweddol ac i alluogi gweithdrefnau digonol i fod ar waith i amddiffyn trigolion, ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol, cartrefi preswyl a mannau eraill dan reolaeth y Cyngor.

**2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

2.1 Cyfarfu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen sawl gwaith ac adroddwyd ddiwethaf i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau fis Mai 2013. Gofynnodd yr Aelodau i Swyddogion ddarparu adroddiad diweddaru mewn tua 12 mis i fonitro cynnydd yn erbyn argymhellion y cytunwyd arnynt yn yr adroddiad hwnnw.

**3. Beth yw'r argymhellion?**

3.1 Bod yr Aelodau'n gwneud sylwadau ar gynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion.

3.2 Aelodau i ystyried a ydynt angen adroddiad monitro pellach.

**4. Manylion am yr adroddiad.**

4.1 Er hwylustod darllen a chyfeirio bydd diweddariad yn cael ei ddarparu yn erbyn pob un o'r argymhellion a wnaed gan Swyddogion a chytunwyd gan yr Aelodau ym mis Mai 2013. Mae'r argymhellion hyn yn rhychwantu ar draws yr ystod o wasanaethau'r Cyngor a gymerodd ran yn yr adolygiad sef swyddogaethau rheoleiddio a chaffael corfforaethol bwyd ar draws y cyngor, gan gynnwys gwasanaeth prydau ysgol a gwasanaethau cymdeithasol.

**Swyddogaethau Rheoleiddio:**

4.2 Llwyddwyd i benodi Swyddog Safonau Masnach yn llwyddiannus gan y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i swydd am gyfnod penodol tan 31 Mawrth 2015. Mae'n gwbl gymwys ac yn bodloni gofynion yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

4.3 Mae crynodeb llawn o'r gwaith safonau bwyd a wnaed gan Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a'r Swyddog yn arbennig i'w weld yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Mae'r gwaith a wnaed yn sylweddol ac yn cynnwys y canlynol:

- Arolygiadau safonau bwyd llawn o'r holl adeiladau risg uchel i fod i gael archwiliad yn ystod 2013/14 (pob eiddo risg uchel wedi cael eu harolygu yn draddodiadol ar gyfer materion hylendid bwyd)
- Cynnal amrywiaeth o arolygon samplo safonau bwyd, gan gynnwys profion rhywogaethau cig ar ran ein gwasanaeth prydau ysgol a gwasanaethau cymdeithasol, pysgod ac amnewid caws, profi alergenau cnau mewn prydau bwytai/bwyd parod a phrofi gwirodydd er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu hamnewid gyda brandiau rhatach/ffug
- Pob siop gigydd yn y Sir wedi eu harolygu i sicrhau bod labelu bwyd yn foddhaol
- 40 eiddo tafarn wedi eu harchwilio er mwyn sicrhau bod y llinellau cwrw yn cael eu glanhau yn drylwyr a dim amnewid yn digwydd
- Holl archfarchnadoedd a masnachwyr marchnad fwyd wedi eu harolygu ar gyfer amrywiaeth o faterion safonau bwyd

4.4 Mae gwaith pellach hefyd wedi cael ei wneud ar ddarparu hyfforddiant i fusnesau o fewn y Sir ar labelu bwyd. Mae hyn wedi arwain at gwrs undydd yn cael ei ddarparu i fusnesau yn ardal Rhuthun. Mae hyfforddiant hefyd wedi cael ei ddarparu i'n Swyddogion Diogelwch Bwyd (Gwarchod y Cyhoedd) a Swyddogion Iechyd Anifeiliaid (Gwarchod y Cyhoedd) ar safonau bwyd a gorfodi bwyd i ddatblygu "gwasanaeth rheoleiddio bwyd" mwy cydlynol.

4.5 Roedd un o'n Swyddogion Safonau Masnach o fewn y gwasanaeth yn cael cefnogaeth gan y Cyngor i ymgymryd â chymhwyster gorfodi bwyd. Mae hi wedi pasio'r cymhwyster hwn. Roedd ein Swyddog Safonau Masnach dan Hyfforddiant hefyd wedi'i chefnogi ac wedi pasio ei harholiadau safonau bwyd ysgrifenedig. Mae hi ar fin eistedd ei harholiad llafar yn ddiweddarach eleni ac os yn llwyddiannus byddai hefyd yn bodloni gofynion cymhwysedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae cael y swydd tymor penodol dros dro profiadol hon wedi bod o gymorth mawr i hyfforddi/datblygu ein staff parhaol yn y maes gwaith hwn.

